**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Chwefror 14eg 2022 yng Nghanolfan Deunant**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Emlyn Jones, Dafydd Williams, Gwenllian Hughes Jones, Wenda Williams, Tim Rosa, Wil Evans, Mari Evans, Jaci Jones, RJ Williams a Geraint Jones
**Yn y gadair:** Y Cyng Nesta Roberts
**1)Ymddiheuriadau a datgan diddordeb :** Datganodd y Cyng Mari Evans ddiddordeb yng nghais am drwydded Plas Carmel (eitem 7)
**2)Cyhoeddiadau y cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd Tim Rosa i'r cyfarfod yn dilyn ei gais i lenwi sedd wag ar ward Aberdaron. Croesawyd o yn aelod o'r Cyngor a llofnododd y datganiad derbyn swydd.
**3)Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg o Ionawr 2021:** Derbyniwyd y cofnodion yn rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**4) Materion yn codi o'r cofnodion**
**i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
Derbyniwyd ymateb gan y Peiriannydd ardal i faterion ffyrdd mis Ionawr:
**Mynedfa Newydd Gyferbyn a Gors, Anelog:** Mae'r swyddog eisioes wedi tynnu sylw yr Adran Gynllunio fod adwy newydd wedi ei chreu gan fod y ffordd yn ffordd dosbarth 3 ond dim cais cynllunio wedi'i gyflwyno.
**Tyllau yn y Ffordd mewn amryw o leoliadau yn yr ardal:** Mae'r tri safle (Nant y Gadwen, Y Rhiw, rhwng Nant Eiddon a Methlem, a rhwng Tŷ Rhos a Pen Rhos, Rhoshirwaun) bellach wedi cael sylw.
**Dwy Gwter yn Anelog wedi cau:** Mae'r ddau safle yma bellach wedi cael sylw.
**Coed Prifets yn tyfu i'r ffordd ger Teras, Rhoshirwaun:** Bydd llythyr gordyfiant yn cael ei yrru i berchennog y tir yn fuan.
**ii)Giat ar y llwybr o Benarfynydd i Fynydd y Graig:** Mae Andy Godber o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi ymweld â'r safle ac wedi addo rhoi sylw i'r mater.
**iii)Bin baw ci ar ben allt Pensarn ger y fynedfa i'r traeth:** Mae Steffan Jones o Gyngor Gwynedd wedi addo rhoi bin ar y safle.
**iv)Arwydd Aberdaron ar yr allt heibio Eglwys Sant Hywyn:** Mae'r arwydd bellach yn ôl yn ei le.
**v)Arwydd ger stad Bro Hywyn:** Mae'r arwydd wedi ei dynnu gan adran AHNE Cyngr Gwynedd.
**vi)Canllaw ger y fynwent:** Derbyniwyd ateb gan swyddog o Gyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd canllaw newydd yn cael ei osod.
**vii)Step ar waelod y trac o ben allt y pentref i'r traeth:** Mae'r Ymgynghoriaeth Gwynedd a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn trafod y mater ac yn bwriadu delio a'r broblem.
**viii)Materion yr Eglwys Newydd:** Mae'r clerc yn dal i aros am ymateb gan y cwmni yswyrin ynghylch gwneud cais am daliad yn dilyn difrod i'r eglwys o ganlyniad i stormydd diweddar.
**ix)Hysbysfwrdd ym mhentref Aberdaron:** Derbyniwyd ateb gan Bleddyn Jones, y swyddog AHNE yn datgan nad yr adran osododd yr hysbysfwrdd ac mae'n bosibl mai adran arall o Gyngor Gwynedd wnaeth ei osod, rai blynyddoedd yn ôl. Penderfynwyd gwneud cais i'r Gronfa AHNE am arwydd newydd, ac un i'r Rhiw yn ogystal.
**x)Canolfan Crud y Werin:** Derbyniwyd llythyr gan Sefydliad y Merched Aberdaron yn adrodd yn ôl o gyfarfod gafwyd gyda Pennaeth yr ysgol, nid yw'r mater wedi ei ddatrys eto. Mae'r clerc yn parhau i aros am ymateb gan Adran Eiddo Cyngor Gwynedd ynghylch y cyfansoddiad gwreiddiol.
Penderfynwyd holi Bob Dorkings, cyn brifathro yr ysgol am wybodaeth ynghylch y cyfansoddiad.
Hefyd penderfynwyd anfon at Bennaeth yr ysgol yn datgan fod y Cyngor wedi penderfynu y dylid cael mynediad i'r ganolfan drwy y drws ffrynt hyd nes y bydd toiledau newydd a drysau cefn newydd wedi eu derbyn (mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu yr adnoddau yma).

**xi)Meddygfa Rhydbach:** Derbyniwyd llythyr gan David Keith Shaw, Rheolwr y feddygfa yn datgan na fydd hi yn bosibl cynnal cyfarfod rhwng y Cyngor a'r meddygon ac yntau oherwydd pwysau gwaith a diffyg adnoddau staff. Mynegodd yr aelodau eu pryder ynghylch y sefyllfa a'i effaith ar iechyd y cleifion. Penderfynwyd nad oes dewis ond anfon at Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth Betsi Cadwaladr gyda chopiau at Eluned Morgan, Gweinidog Iechyd y Cynulliad, Mabon ap Gwynfor, Aelod Cynulliad Dwyfor Meirionnydd a Liz Saville Roberts, Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd i fynegi y pryder,
**xii)Trafeilwyr ar dir Bodffordd, Rhoshirwaun:** Mae pryder yn parhau ynghylch y sefyllfa ac mae Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd yn ystyried cymeryd camau gorfodaeth. Mae Adran yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd yn ymchwilio mewn i drefniadau dwr glân a gwaredu gwastraff ar y safle.
**5) <u>Gohebiaethau</u>**
i)Cais am gynrhychiolaeth o'r cyngor ar bwyllgor i ymdrîn a phroblemau parcio ym mhentref Aberdaron: Penderfywyd y byddai Y Cynghorwyr Wenda Williams, Emlyn Jones a RJ Williams yn cynrhychioli y Cyngor Cymuned ar bwyllgor sydd wedi ei drefnu gan Gyngor Gwynedd i edrych i fewn i opsiynau ar gyfer gwella trefniadau parcio yn Aberdaron yn ystod yr haf. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar yr 17eg o Chwefror.
ii)Llythyr gan Gyngor Tref Nefyn parthed Cynllun Tai Cymunedau (yr aelodau i lenwi yr ymgynghoriadau yn unigol).
iii)Llythyr ac adroddiad gan Alys Lloyd Jones parthed cynllun Ardal Ni - derbyniwyd y wybodaeth.
iv)Llythyr gan Delyth Jones ynghylch apêl Eisteddfod Genedlaethol 2023 (i'w drafod mis Mawrth)
v)Nodyn Briffio gan Gyngor Gwynedd ynghylch yr economi ymweld - derbyniwyd y wybodaeth.
**6)Tendrau torri gwellt y fynwent a'r llwybrau:** Mae y contractau torri gwellt y fynwent a'r llwybrau wedi dod i ben ac mae angen ail hysbysebu y tendrau. Penderfynwyd hysbysebu am dendrau dwy flynedd, gyda y dyddiad cau ar gyfer y tendrau ar Fawrth yr 11eg.
**7)Cais am drwydded Plas Carmel:** Dim gwrthwynebiad.
**8) <u>Cynllunio</u>**
C22/0006/30/DT: Dymchwel porth blaen presennol ac adeiladu porth newydd yn ei le - Ystolhelyg Bach - dim gwrthwynebiad
C22/0072/30/DT:Estyniad ochr unllawr/Single storey side extension - Glwyd, Bryncroes - dim gwrthwynebiad.
C21/0823/30/LLAdeiladu sied amaethyddol newydd yn amnewid am sied bresennol i gynnwys storfa slyri tanlawr, Bugeulus Fawr - dim gwrthwynebiad
**9)Ariannol**
i)Ffurflen Flynyddol 2020-21: Derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr allannol, nid oes pwyntiau gweithredu a chyflwynwyd adroddiad di amod. Bydd yr hysbyseb diwedd archwiliad yn cael ei osod yn yr hysbysfyrddau ac ar wefan y Cyngor.
**Taliadau**
Iwan Hughes: £186.29 (cyflog)
HMRC (Paye): £46.40
Nesta Roberts: £12 (CCTV trwy S/O)
**Derbyniadau**
Cyngor Gwynedd: £681.50 (grant llwybrau)
**10) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**
a)Penderfynwyd holi os oes bwriad gan Gyngor Gwynedd i roi palmant ar y ffordd heibio Anhegraig yn dilyn cais gan y Cyngor llynedd.
b)Penderfynwyd atgoffa Cyngor Gwynedd am eu gaddewid i ail baentio llinellau gwyn ar ffyrdd yr ardal.
c)Derbyniwyd ymholiad ynghylch sefyllfa Swyddfa Bost yn Aberdaron, a gan ei bod yn anhebygol y bydd Swyddfa Bost wedi ei leoli yn Spar, penderfynwyd gwneud ymholiad i weld os y gall y Post teithiol ddod i'r pentref rai boreau.

ch)Mae giat mochyn ger Penmaes Bellaf wedi rhydu nes ‘does dim ar ôl ohoni ac mae camfa bren ar y llwybr hefyd mewn cyflwr gwael.
ch)Penderfynwyd gwneud cais i gael bin ailgylchu yn y cae chwarae.
d)Penderfynwyd gofyn am arwydd ‘Anaddas ar gyfer loriau’ ym mhen lôn y Felin, Rhoshirwaun ac ym mhen lôn Plas Newydd ar y pen arall i’r ffordd gan fod loriau yn mynd yn sownd ar bont y felin
dd)Penderfynwyd gofyn eto am gamfa ar lwybr Bryn Du, Anelog.
e)Mae angen gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru am gyfarfod gyda y Cyngor Cymuned er mwyn trafod yr afon ym mhentref Aberdaron.
f)Mae angen trefnu hyfforddiant dibrilliwr yn Aberdaron.
ff)Mae dwr yn hel ar y ffordd ger y fynedfa i iard Morfa Mawr.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o’r Cyngor yn Neuadd Rhoshirwaun, nos Lun, Mawrth y 14eg.**